# Gwybodaeth i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a mudiadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd

## Plant troseddwyr yng Nghymru

Mae carcharu rhieni yn effeithio ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i gael at eu hiawnderau a'u hawliau, yn cynyddu'r risg o ganlyniadau gwael ac yn gysylltiedig yn gryf gyda thlodi plant.

- Fe amcangyfrifir bod y nifer o blant a phobl ifanc gyda rhiant yn y carchar yng Nghymru a Lloegr yn amrywio rhwng 125,000 a 150,000.[1] Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn awgrymu ffigwr o 150,000.[2]

- Bydd oddeutu 7 y cant o boblogaeth ysgolion yn cael y profiad o riant yn y carchar yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.[3]

## Cydnabod bod plant troseddwyr yn blant sy'n agored i niwed yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (1989).[4] Mae Erthyglau 2 a 9 o UNCRC yn dangos sut y mae'n rhaid i blant cael at eu hawliau gwaeth beth fo statws eu rhieni.

Fe gynhwysir plant gyda rhieni yn y carchar fel plant a phobl ifanc 'mewn amgylchiadau arbennig' yn **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (NSF)**.[5] Mae'r NSF yn cynnwys safon i fudiadau i roi gwasanaethau cynhwysol a gwasanaethau ychwanegol a anelwyd at bob plentyn mewn amgylchiadau arbennig a'u teuluoedd (6.4) a bod grwpiau cymheiriaid cefnogol i blant mewn amgylchiadau arbennig yn cael eu cyllido a'u hyrwyddo ar y cyd ym mhob ardal (6.2.).

Mae *'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau'* (2007) – Cyfarwyddyd statudol ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc – yn canfod bod plant a phobl ifanc o deuluoedd mewn amgylchiadau anodd, yn cynnwys teuluoedd troseddwyr, angen cymorth ychwanegol. Mae'r Cyfarwyddyd hefyd yn cynnwys yr angen i roi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf, yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi

troseddu a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Mae plant carcharorion dwywaith a hanner yn fwy tebygol i ddod yn garcharorion eu hunain.

Yn 2006 cyhoeddodd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol yng Nghymru strategaeth ar gyfer gweithio ar y cyd i leihau ail-droseddu ac i greu cymunedau cryfach a mwy diogel yng Nghymru.[6] Mae'r strategaeth yn glir bod gan 'yr holl asiantaethau yn y system cyfiawnder troseddol a'u partneriaid, cyfrifoldeb i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd troseddwyr'. Mae bron i hanner yr holl droseddwyr yn colli cysylltiad â'u teuluoedd tra yn y carchar.[7] I ferched, mae'r anawsterau o gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd yn waeth trwy fod mewn carchar ymhellach o'r cartref. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod carcharorion sy'n cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd chwe gwaith yn llai tebygol o ail-drosedddu.[8] Mai lleihau ail-droseddu yn ganolog i leihau'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n cael y profiad o ganlyniadau gwael oherwydd bod y rhieni yn y carchar.

## Tystiolaeth o effaith carchariad rhieni ar blant a phobl ifanc

Lle mae carcharor yn y teulu bydd plant yn debygol o brofi amryw o faterion yn cynnwys:

- lles emosiynol gwael;
- ymddygiad aflonyddgar;
- hunan-barch isel;
- anawsterau iechyd meddwl arwyddocaol;
- cyrhaeddiad addysgiadol gwael;[9]
- risg uwch o droseddu.[10]

Mae carchariad rhiant yn gysylltiol â straen economaidd y teulu ac ansefydlogrwydd yn nhrefniadau gofal a byw'r plant, hyd yn oed ar ôl rheoli'r camddefnydd o sylweddau gan y rhieni a phroblemau iechyd meddwl.[11] Mae astudiaeth a wnaed yn ddiweddar yn awgrymu bod polisïau cyfiawnder troseddol a lles cymdeithasol yn cyfuno i greu tlodi, i anfanteisio ac i eithrio teuluoedd carcharorion a'u plant yn arbennig.[12]

Bydd plant gwragedd sydd yn y carchar yn debygol o fod dan ofal y tu allan i'r cartref tra bod eu mamau yn y carchar gyda 5% yn unig o blant gwragedd sydd yn y carchar yn aros yng nghartref y teulu.[13] Canfu un arolwg bod un neu mwy o blant 11% o famau yn y carchar wedi cael eu cymryd i ofal, eu maethu neu eu mabwysiadu.[14]

Mae effaith hirdymor o garcharu rhiant a chyfres o faterion cysylltiol yn cyfrannu at ac yn atgyfnerthu'r tueddiad at dlodi ac eithriad cymdeithasol ar hyd cylch bywyd.[15]

## Ymateb i anghenion plant troseddwyr

1. **Cyfathrebu:** Rhoi cyngor a gwybodaeth i ofalwyr plant ar sut i gyflwyno esboniadau clir a gonest i blant am absenoldeb ei rhieni.[16]
2. **Lleoli:** Mae plant angen trefniadau am ofal sefydlog tra bo'r rhieni yn y carchar, yn ddelfrydol gyda theuluoedd neu ffrindiau.[17]
3. **Cyswllt:** Cynyddu'r cyfleoedd i blant cadw mewn cysylltiad â'r rhiant sydd yn y carchar, yn arbennig trwy drefniadau sy'n canolbwyntio ar ymweliadau plant â charchardai.[18]
4. **Therapi:** Cynnig gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i blant carcharorion i'w helpu i ddygymod â'r gwahanu.[19]
5. **Cymorth ariannol:** Sicrhau bod teuluoedd carcharorion yn derbyn buddiannau digonol i oresgyn colli incwm.[20]
6. **Lleihau costau:** Rhoi cludiant am ddim neu gymorth ariannol tuag at ymweld â'r carchar. Lleihau costau galwadau ffôn rhwng y cartref a'r carchar.[21]
7. **Cyflogi carcharorion:** Darparu gwaith cyflogedig i garcharorion tra yn y ddalfa a chynyddu cynlluniau gwaith sy'n cyflogi cyn garcharorion.[22]
8. **Ymyrraeth rieniol:** Mae arddulliau rhieniol yn rhagfynegyddion pwysig o ddatblygiad plentyn a chanfuwyd bod ymyrraeth rieniol yn effeithiol.[23]
9. **Cefnogaeth deuluol:** Mae rhoi cefnogaeth i helpu teuluoedd a effeithiwyd gan droseddu yn lleihau'r risg o ganlyniadau gwael i blant a phobl ifanc. Mae cefnogi teuluoedd gydag aelod o'r teulu yn y carchar yn lleihau'r risg o chwalu teulu sydd, yn yr un modd yn lleihau'r risg o ail-droseddu.

Mae pobl ifanc gyda rhiant yn y carchar wedi canfod yr angen i siarad â rhywun, am rywun i helpu efo ymweliadau a materion ymarferol, i dderbyn gwybodaeth ac i gael at wybodaeth.[24]

**Addysg:** Nid yw ysgolion yn barod gyda'r cyfarpar ar hyn o bryd i gydnabod anghenion plant gyda rhiant yn y carchar.[25] Mae yna dystiolaeth bod plant yn teimlo'r angen i chwarae rhan gefnogol yn y teulu pan fo rhiant yn cael ei garcharu. Ar yr un pryd, gall plant teimlo'r angen i guddio amgylchiadau'r teulu rhag eraill. Mae hyn yn ei hynysu rhag cael cefnogaeth. Yn y modd yma gall plant gyda rhiant yn y carchar profi llawer o'r straen a'r rhwystrau i addysg sy'n gysylltiedig â rôl gofalwr ifanc.

Mae Awdurdod Addysg Lleol Sir Gaerloyw wedi datblygu polisi ar gyfer addysgu plant gyda rhiant neu berthynas agos yn y carchar. Amcan y polisi yw codi ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl ifanc a effeithiwyd gan deulu yn y carchar, diogelu eu cyflawniad addysgiadol a phresenoldeb a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.[26]

**Mae plant troseddwyr yn blant sy'n agored i niwed ac mewn perygl o gael canlyniadau gwael. Mae'r grŵp yma o blant a phobl ifanc angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn cael at eu hiawnderau a'u hawliau. Mae tystiolaeth sefydledig yn bodoli mewn perthynas ag anghenion plant troseddwyr gydag ymatebion priodol.**

**Mae angen am ymrwymiad gan y mudiadau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn eu cymunedau ac asiantaethau yn y system cyfiawnder troseddol i ymateb i anghenion y plant a'r bobl ifanc yma.**

**Cynhyrchwyd y ddogfen hon fel rhan o waith aml asiantaethol Grŵp Llwybr i Blant a Theuluoedd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (Cymru). Mae'r grŵp yn symud ymlaen gyda gwaith Llwybr i Blant a Theuluoedd ar Strategaeth NOMS (Cymru) i Leihau Ail-Droseddu (2006). Mae'r grŵp hefyd yn cefnogi'r rhai hynny sy'n gweithio mewn carchardai ac yn y system cyfiawnder troseddol ehangach i ddatblygu ymarferiad i gyfarfod ag anghenion plant troseddwyr a'u teuluoedd.**

Mae copïau o *'Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau: Canllawiau'* ar *'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio'* ar gael ar Wefan Llywodraeth y Cynulliad ar:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=cy

---

[1] Gweler er enghraifft tystiolaeth Plant yng Nghymru i Bwyllgor Materion Cymreig, Tachwedd 2006, hefyd Murray, J. a Farrington, D.P. (2006), 'Evidence-based Programs for Children of Prisoners' yn *Criminology and Public Policy,* Cyfrol 5 Rhif 4 tudalennau 721-736

[2] Smith, R. et al, (2007) *Poverty and disadvantage among prisoners' families*, York: Joseph Rowntree Foundation

[3] Action for Prisoners' Families, (2003) *Submission in response to Green Paper Consultation, Every child Matters,* APF
http://www.prisonersfamilies.org.uk/opus554/Every_Child_Matters_Response_Nov03.PDF

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2004) *Children and Young People: Rights to Action,* Caerdydd: LlCC

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2006) *National Service Framework for Children, Young People and Maternity Services in Wales,* Caerdydd: LlCC

[6] Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol Cymru, (2006), *Joining Together in Wales an Adult and Young Person's Strategy to Reduce Reoffending,* LlCC, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, CLlLC, Heddlu De Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Dyfed-Powys,

[7] NACRO, (2000) *The Forgotten Majority: The Resettlement of Short Term Prisoners, National Association for the Care and Resettlement:* Llundain

[8] SEU, (2002), *Reducing Reoffending by ex-prisoners,* Uned Eithrio Cymdeithasol: Lludain

[9] Gweler Brown, K. (2001).*No-one's ever asked me: young people with a prisoner in the family*, Llundain: hefyd APF Gweithredu ar ran Teuluoedd Carcharorion, (2003)*Exploring the needs of young people with a prisoner in the family*, Llundain: hefyd APF Gweithredu ar ran Teuluoedd Carcharorion, (2001) *I didn't think anyone would understand miss: Supporting prisoners' children in school,* Llundain: AFP

[10] Murray, J. a Farrington, D.P. (2005), 'Parental imprisonment: Effects on boys' ymddygiad gwrth gymdeithasol a thramgwyddus cylch oes, yn *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 46, tudalennau 1269-1278

[11] Phillips, S. et al, (2006), 'Disentangling risks: parent criminal justice involvement and children's exposure to family risks', yn *Criminology and Public Policy,* Cyfrol 5 Rhif 4 tudalennau 677-702

[12] Gweler 2 uchod, R. Smith, 2006

[13] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, (2000), *Justice for Women*

[14] SEU, (2002), *Reducing Reoffending by ex-prisoners,* Uned Eithrio Cymdeithasol: Llundain

[15] Walker, J. a McCarthy, P. (2005), 'Parents in prisons: the impact on children', yn Preston, G. (ed), *At Greatest Risk: the children most likely to be poor*, Llundain: CPAG

[16] Poehlmann, J. (2005) 'Representations of attachment relationships in children of incarcerated mothers, yn *Child Development*, 76, tudalennau 679-696, dyfynnwyd yn Murray, J. a Farrington, D.P. (2006), 'Evidence-based Programs for Children of Prisoners' yn *Criminology and Public Policy,* Cyfrol 5 Rhif 4 tudalenau 721-736

[17] Bernstein, N. (2005) All Alone in the World: Children of the Incarcerated, New York: The New Press, dyfynnwyd yn Murray a Farrington, 2006, gweler 19 uchod

[18] Cyngor Ewrop, (1997), *Argymhelliad 1340 (1997) Effeithiau Cymdeithasol a Theuluol Carchariad,* Strasbourg, Ffrainc: Cynulliad Seneddol, Cyngor Ewrop; Trice, AD a Brewster, J. (2004) 'The effects of maternal incarceration on adolescent children', *Journal of Police and Criminal Psychology*, 19, tudalennau 27-35 dyfynnwyd yn Murray a Farrington, 2006, gweler 19 uchod

[19] Hames, C.C. a Pedreira, D. (2003), 'Children with parents in prison: Disenfranchised grievers who benefit from bibliotherapy', *Illness, Crisis and Loss*, 11, tudalennau 377-386; Sack, W.H. et al, (1976) 'The children of imprisoned parents: A psychosocial exploration', *American Journal of Orthopsychiatry* dyfynnwyd yn Murray a Farrington, 2006, gweler 19 uchod.

[20] Gweler 21 uchod, Cyngor Ewrop, 1997.

[21] Gweler 20 uchod N. Berstein, 2005.

[22] Gweler 21 uchod, Cyngor Ewrop, 1997.

[23] Gweler 1 uchod, Murray a Farrington, 2006.

[24] Brown, K. (2001) *No-one's Ever asked me: Young people with a prisoner in the families,* Ffederasiwn Grwpiau Cefnogi Teuluoedd Carcharorion

[25] Dibb, L. (ed) (2001) *I didn't think anyone would understand miss: Supporting prisoner's children in school,* Gweithredu ar ran Teuluoedd Carcharorion

[26] Gweler Gweithredu ar ran Teuluoedd Carcharorion (2002), *Supporting Young People with a Prisoner in the Family* http://www.prisonersfamilies.org.uk/opus229/Guidelines_PRACTICE.pdf